

Pwyllgor: **Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu**

Dyddiad y cyfarfod: **26 Tachwedd 2018**

Pwnc yr Adroddiad: **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Blaenau Gwent**

Deiliad Portffolio: **Portffolio Addysg a Dysgu - Cyng. Clive Meredith**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan: **Pennaeth Trawsnewid Addysg - Lynn Phillips**

Ysgrifennwyd yr Adroddiad gan: **Rheolwr Trawsnewid Addysg - Clare Gardner**

Llwybr Adrodd								
Tim Rheoli Cyfarwyddiaeth	Tim Arwain Corfforaethol	Deiliad Portffolio/Cadeirydd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Gwas. Dem.	Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Gweithredol	Cyngor	Arall (noder)
✓	6.11.18	14.11.18			26.11.18	19.12.18		

1. **Diben yr Adroddiad**

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu edrych yn fanwl ar gynnydd ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Blaenau Gwent; gwaith y Fforwm Cymraeg mewn Addysg ac alinio'r cynllun gyda datblygiadau cenedlaethol/rhanbarthol.

2. **Cwmpas a Chefnidir**

- 2.1 Mae Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP).
- 2.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau diwygiedig yn 2016 yng nghyswllt datblygu'r fformat ddiwygiedig yn gysylltiedig gyda Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 3- blynedd ar gyfer y cyfnod 2017-2020. Diben y WESP yw gosod dull gweithredu a chyfeiriad strategol y Cyngor wrth ddatblygu a chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg. Caiff y cynllun ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol a'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr Arweiniol Corfforaethol gyda chyfrifoldeb am Addysg o fewn y Cyngor. Mae hefyd angen i'r cynllun gael ei seilio a'i lywio gan Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gyfredol Llywodraeth Cymru (Ebrill 2010) a datganiad polisi ar gyfer 2015-16.
- 2.3 Cafodd y canllawiau diwygiedig eu sefydlu o fewn cyd-destun strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyflawni hynny mae Llywodraeth Cymru yn credu fod angen i'r dilynol ddigwydd:
- mwy o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg;
 - gwell cynllunio yng nghyswllt sut mae pobl yn dysgu'r iaith;

- mwy o gyfleoedd hygyrch i bobl ddefnyddio'r iaith;
 - seilwaith cryfach a chwyldro i wella darpariaeth ddigidol yn y Gymraeg;
a
 - newid yn y ffordd y siaradwn am yr iaith.
- 2.4 Yn ôl y cyfrifiad diweddaraf (2011), roedd 562,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar y sail honno, nod y strategaeth genedlaethol fydd bron ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif. Fel canlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu 6 maes allweddol ar gyfer gweithredu:
- 2.5
1. Cynllunio a pholisi iaith
 2. Normaleiddio
 3. Addysg
 4. Pobl
 5. Cefnogaeth
 6. Hawliau
- 2.6 Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 Blaenau Gwent (gweler **Atodiad 1** am fwy o wybodaeth) yn alinio'n uniongyrchol gyda fframweithiau strategol Llywodraeth Cymru a hefyd y Cyngor ar y Gymraeg. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau strategol a amlygwyd yn y ddrafft ddogfen WESP ar gyfer y tair blynedd nesaf fel sy'n dilyn:
- 2.7
- Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol erbyn 2020, i gyfrannu at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
 - Cynyddu'r cynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw gan rieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.
 - Cynyddu cyfraddau pontio o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg gan 50% yn 2020.
 - Gweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau lleol De Ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2017-2020 a thu hwnt.
 - Gwella deilliannau disgyblion cyfrwng Cymraeg erbyn 2020 fel bod disgyblion yn codi eu huchelgais ac yn gwella eu cyfleoedd bywyd.
- 2.8 Cafodd cynllun WESP diwygiedig Blaenau Gwent ei gyflwyno'n gyntaf i Lywodraeth Cymru yn unol gyda'r canllawiau newydd ar 20 Rhagfyr 2016. Yna cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad dechreuol ar y cynlluniau a gyflwynwyd gan bob Cyngor a chomisiynu ymgynghorydd allanol, Aled Roberts, i ddadansoddi'r cynlluniau wrth ddynodi bylchau a chyfleoedd i'w cryfhau. Yna fe wnaeth yr ymgynghorydd gyfarfod gyda phob Cyngor ledled Cymru yn unigol i drafod ei ganfyddiadau dechreuol. Yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgynghorydd, paratodd y tîm Trawsnewid Addysg ymateb i'r ymholiadau dechreuol ym mis Mai 2017. Wedyn rhoddwyd adborth ffurfiol ar ffurf llythyr i bob Cyngor ar 4 Awst 2018 a chafodd ymateb ei baratoi i hynny a'i adolygu gan y Fforwm Addysg Gymraeg leol, gan arwain at gyflwyno diweddariadau i Lywodraeth Cymru eu hadolygu.

- 2.9 Rhoddir crynodeb o'r adborth gan Lywodraeth Cymru islaw a chafodd y cyfan ohonynt eu trin o fewn cyd-destun y cynllun a atodir:
- Gwybodaeth fwy fanwl am weithio agosach gyda'r Mudiad Meithrin a dynodi ardaloedd ar gyfer datblygu darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg newydd;
 - Angen i'r bwriadau fod yn gliriach ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ar gyfer darpariaeth newydd cyfrwng Cymraeg;
 - Angen i gynlluniau ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ffrwd ddeuol fod yn gliriach;
 - Dylai'r cynllun nodi unrhyw ddarpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn cyd-destun y cynllun peilot gofal plant 30 awr;
 - Dylai Deiliant 5 gyfeirio at unrhyw weithgareddau mapio yn ogystal â'r fframwaith; a
 - Mae angen mwy o fanylion yn Neiliant 6 i drafod yr asesiad diweddaraf o angen yn ogystal ag amlygu unrhyw fylchau mewn darpariaeth.
- 2.10 Wedyn cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddrafft diwygiedig WESP Blaenau Gwent. Dechreuodd hynny ar 30 Hydref 2017 a daeth i ben ar 17 Tachwedd 2017. Drwy gydol y broses ymgynghori, dim ond 1 ymateb a gafwyd gyda diweddariad yng nghyswllt y Cylchoedd Meithrin, gan Ddirprwy Reolwr y Mudiad Meithrin yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r ymateb cyfyngedig yn dangos y lefelau uchel o ymgysylltu gyda phartneriaid o fewn Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ynghyd ag effeithlonrwydd cynllunio gweithredu rheolaidd a phrosesau adolygu. Cafodd y cynllun diwygiedig ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Cafodd WESP Blaenau Gwent ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018 (gweler **Atodiad 2** ar gyfer llythyr cymeradwyo Llywodraeth Cymru). Blaenau Gwent oedd y Cyngor cyntaf a'r unig Gyngor o fewn rhanbarth De Ddwyrain Cymru ar y pryd i gael cymeradwyaeth i'r cynllun heb unrhyw newidiadau pellach.
- 2.11 Ynghyd ag adolygiad o'r WESP, cafodd strwythur Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, ei aelodaeth a dogfennau cysylltiedig eu hadolygu a'u cryfhau yn rhyngor hydref 2017. Cafodd y cylch gorchwyl ei symleiddio ac mae'n awr yn adlewyrchu'n well ffocws a chylch gorchwyl y grŵp (gweler **Atodiad 3** am fwy o wybodaeth). Fel canlyniad i'r adolygiad, mae bellach Swyddogion Arweiniol gyda'r sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd wedi eu dynodi ar gyfer pob un o'r deilliannau. Ffurfiwyd fformat adrodd newydd a fu'n effeithlon tu hwnt wrth sicrhau y caiff gwybodaeth gyfredol ei chasglu a'i defnyddio i lywio cynnydd ar bob deiliant yn unol â gweithredu.
- 2.12 Cynhaliwyd 5 cyfarfod o'r Fforwm Addysg Gymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 gyda gwelliant mewn aelodaeth, presenoldeb ac ymgysylltu o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae partneriaid wedi sôn am effeithlonrwydd y Fforwm, sydd yn ei dro wedi cael effaith gadarnhaol ar aelodaeth, presenoldeb a deilliannau.

- 2.13 Mae un o ddeilliannau'r dull gweithredu partneriaeth gwell yn cynnwys cynllunio a chyflenwi cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhieni/gofalwyr gyda'r teitl 'Plant Dwyieithog' drwy gydol 2017 a 2018. Cafodd y rhaglen digwyddiadau ei chydlynu gan y tîm Trawsnewid Addysg yn unol â Deiliant 1 ac mewn partneriaeth â:
- Tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent
 - Ysgol Gymraeg Bro Helyg
 - Mudiad Meithrin
 - Yr Urdd
 - Swyddog Cefnogaeth y Gymraeg Blaenau Gwent
 - Mentrau Iaith Cymru
 - Cymraeg i Blant
- 2.14 Cafodd rhaglen digwyddiadau 'Plant Dwyieithog' ei datblygu gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau fod rhieni'n llwyr ymwybodol o'r dewisiadau addysg a gofal plant cyfrwng Gymraeg sydd ar gael iddynt. Fe wnaeth y digwyddiadau hefyd sefydlu'r rhwystrau y mae rhieni'n tybio sy'n eu hwynebu yng nghyswllt gofal plant ac addysg cyfrwng Gymraeg a bydd canlyniadau hyn yn llywio gwaith marchnata, hyrwyddo ac ymgysylltu yn y dyfodol. Bu tua 20 o rieni/gofalwyr a phlant o ardaloedd Tredegar a Glynebwy yn bresennol yn y digwyddiad cyntaf a gynhaliwyd yn Nhŷ Bedwellte ym mis Hydref 2017. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn gyda'r Mudiad Meithrin yn dweud fod Blaenau Gwent yn arwain y ffordd yn nhermau ymgysylltu â theuluoedd a rhieni. Mae'r digwyddiad hefyd wedi ysgogi diddordeb gan rieni mewn awdurdodau eraill (gweler **Atodiad 4** am fwy o wybodaeth).
- 2.15 Cafodd strwythur, aelodaeth, diben a ffocws Fforwm Rhanbarthol Cymraeg mewn Addysg De Ddwyrain Cymru hefyd eu hadolygu. Mae'r Fforwm bellach yn llawer mwy effeithlon o ran cydnabod a chefnogi datblygiadau rhanbarthol a lleol, ynghyd â'u hymwneud mewn cyd-destun Cymru gyfan.
- 2.16 Mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynrychioli Blaenau Gwent yn holl gyfarfodydd y Fforwm Rhanbarthol Cymraeg mewn Addysg drwy gydol y flwyddyn academaidd diwethaf, ac felly mae Cyngor Blaenau Gwent wedi sicrhau ei fod yn bartner cadarn. Yn ychwanegol, y Rheolwr Trawsnewid Addysg yw cadeirydd Is-grŵp Cynllunio Rhanbarthol Lleodedd Ysgol a Galw Fforwm Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r grŵp wedi cwrdd 5 gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 ac wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau/meysydd gwaith dilynol:
- 2.17
- Cydlynu trefniadau arolwg y galw am addysg cyfrwng Gymraeg
 - Adolygu a llunio un holiadur a llyfryn i'w dosbarthu
 - Sicrhau bod rhaglen asesu galw 3-blynedd yn ei lle gyda'r gyntaf yn cael ei chynnal yn nhymor hydref 2018
 - Cynnal archwiliad o asesiadau eraill a'r amserlenni darpariaeth cysylltiedig h.y. CSA
 - Ymchwilio datblygu cynllun cymhelliant i gefnogi ymgysylltu â rhieni o fewn y broses arolygu galw
 - Cymharu cyfraddau dychwelyd canran a chynnal monitro ar sail ranbarthol i fod yn sail bellach i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg

- 2.18 • Adolygiad rhanbarthol o gynnydd, datblygu a threfniadaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y presennol a'r dyfodol
- Adolygu capasiti a chynllunio lleoedd disgyblion yng nghyswllt darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r rhanbarth
 - Trafod Band B a chynlluniau'r dyfodol ymchwilio cynnydd a chyfleoedd datblygu
 - Ymchwilio trefniadau traws-ffin a chyfleoedd cysylltiedig
- 2.19 • Adolygiad o drefniadau cludiant cyfrwng Cymraeg
- Cymharu polisiau, cynlluniau, darpariaeth, defnydd, terfynau, rheolaeth ac yn y blaen
 - Adolygu geirfa ac ystyr o fewn polisiau a chynlluniau e.e. Consesiwn
 - Ymchwilio trefniadau ffydd
 - Ymchwilio cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau ar lefel ranbarthol
- 2.20 Mae'r grŵp wrthi'n cynllunio y trefniadau ar gyfer yr arolwg o'r galw rhanbarthol i'w weithredu yn ystod tymor yr hydref 2018. Bydd ymchwilio darpariaeth lleoedd ysgol uwchradd yn ffocws ar gyfer y grŵp yn y dyfodol, yn unol â thwf rhanbarthol addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.
- 2.21 Mae Rhaglen Band B Ysgolion 21ain Ganrif Blaenau Gwent (a gytunwyd yn 2017) yn cynnwys darparu ysgol egin cyfrwng Cymraeg. Ffocws y ddarpariaeth egin yw mynd i'r afael â'r galw cudd am addysg cyfrwng Cymraeg a ddynodwyd yn Nhredgar/Cwm Sirhywi, tra hefyd yn cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn Blaenau Gwent, yr unig Gyngor ar hyn o bryd sydd ag ond un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.
- 2.22 Ar 16 Ionawr 2018 cyhoeddodd Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid y dyrennid £30 miliwn i gefnogi prosiectau cyfalaf yn neilltuol ar gyfer a chynyddu'r Gymraeg mewn addysg (caiff y grant ei weinyddu yn ychwanegol at y dyraniadau cyfalaf a gadarnhawyd ym Mand B). Roedd angen cynigion i greu ychwanegedd a chyfrannu at ddiwallu nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cafodd y broses cais am grant ei chychwyn ym mis Mawrth 2018 i'w dychwelyd erbyn 1 Mehefin 2018. Derbyniodd Cyngor Blaenau Gwent gadarnhad ym mis Hydref 2018 iddynt fod yn llwyddiannus wrth sicrhau £6 miliwn. Dyfarnwyd y grant yn unol â thwf yr ysgol egin a gynigiwyd dan Band B ynghyd â datblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd gyda 210 o leoedd fydd yn darparu ar gyfer disgyblion egin yn y dyfodol. Y bwriad yw dechrau ymgynghoriad statudol ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn gynnar yn 2019 a bydd y Pwyllgor Craffu yn ffurfio rhan gyfannol o'r broses ymgynghori, yn unol â'r flaenraglen waith.
- 2.23 Gwnaed cynnydd sylweddol yng nghyswllt datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ynghyd â phrosesau a phartneriaethau yn cynnwys y Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n sail i'w ddarpariaeth. Mae angen rheolaeth a monitro parhaus i sicrhau fod y cynllun a'r targedau yn adlewyrchu'r angen ac y cyflawnir amcanion allweddol o fewn y cyfnod 2017-20.

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

- 3.1 Ymgynghorwyd yn ffurfiol ar WESP 2017-20 Blaenau Gwent ynghyd â'r diwygiadau a nodwyd uchod yn unol ag adborth Llywodraeth Cymru a chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor a hefyd Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn awr yn ei gyfnod gweithredu. Felly, mae'r opsiynau dilynol ar gyfer eu hystyried yn gysylltiedig gyda gweithdrefnau monitro WESP:

Opsiwn 1: parhau i weithredu'r gweithdrefnau monitro presennol, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r gwersi a ddysgwyd.

Opsiwn 2: gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r broses fonitro ar gyfer adolygu a gweithredu yn sesiwn academaidd 2019/20.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

- 4.1 Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i baratoi dogfen WESP yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- 4.2 Mae addysg yn flaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor, gyda chynllunio lleoedd ysgol a mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â dewisiadau rhieni yn elfennau hanfodol.
- 4.3 Mae WESP yn ganolog wrth sicrhau mynediad parhaus, ynghyd â datblygu'r Gymraeg yn unol â nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 4.4 Mae addysg hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Gynllun Llesiant Blaenau Gwent a rôl y tîm Trawsnewid Addysg yw sicrhau fod yr ysgolion cywir yn y lle cywir, ar yr amser cywir.

5. **Goblygiadau Pob Opsiwn**

Mae'r goblygiadau dilynol yn berthnasol i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20:

- Methiant i gyflawni'r deilliannau a'r targedau a sefydlwyd o fewn y cynllun - caiff hyn ei liniaru gan y trefniadau monitro helaeth sydd ar waith. Mae'r tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu cynnydd yn fisol a rhoddir adroddiad bob tymor i'r Fforwm Addysg Gymraeg ar hyn, eir drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor a rhoddir adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Cydymffurfiaeth gyda dyletswydd statudol a goblygiadau deddfwriaethol - caiff hyn ei reoli yn unol ag adolygu a datblygu polisi ac arweiniad ynghyd ag adnewyddu'r WESP bob 3 blynedd ac adroddiadau yn flynyddol.
- Materion cynaliadwyedd o fewn y stad ysgolion yng nghyswllt addysg cyfrwng Cymraeg - caiff hyn ei reoli a'i liniaru gan ymgyrchoedd

hyrwyddo blynyddol, gweinyddu'r arolwg blynyddol o alw, asesu capasiti ac amcanestyniadau. Mae'r model egin hefyd yn rhoi cyfle i drin galw cudd, gan hybu twf pellach.

6. Tystiolaeth Gefnogi

6.1 Mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o'r cynllun gweithredu cysylltiedig sy'n cyflawni'r diben o fonitro cynnydd o gymharu â deilliannau (rhoddir manylion pob deiliant ynghyd â'r camau gweithredu cysylltiedig yn **Atodiad 1**). Mae'r Cyngor ar hyn o bryd 10 mis i mewn i flwyddyn gyntaf WESP 2017-20. Mae'r statws yn nhermau cynnydd ar bob un o'r camau gweithredu cysylltiedig â deilliannau ar gyfer 2017/18 ar hyn o bryd yn 73% wedi eu cwblhau, gyda gweddill y camau gweithredu ar y rhaglen i'w cwblhau erbyn mis Tachwedd 2018 yn unol gyda ffurflen statudol Llywodraeth Cymru. Mae Ffigur 1 islaw yn dangos cynnydd ar ddeilliannau fel ar 24 Hydref 2018.

6.2 Ffigur 1

	Nifer Camau Gweithredu Deiliant	Camau Gweithredu wedi Cwblhau	Canran wedi Cwblhau	Camau Gweithredu ar y Gweill	Canran ar ôl
Deiliant 1	16	11	68%	5	32%
Deiliant 2	11	11	100%	0	0%
Deiliant 3	2	2	100%	0	0%
Deiliant 4	4	3	75%	1	25%
Deiliant 5	14	7	50%	7	50%
Deiliant 6	5	3	60%	2	40%
Deiliant 7	6	5	84%	1	16%
Cyfanswm	58	42	73%	16	27%

6.3 Mae'r WESP yn rhoi dull gweithredu strategol yn sail i gyfeiriad a chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg ym Mlaenau Gwent dros y 3 blynedd nesaf. Bydd hyn yn ei dro yn sail i ddatblygiad yn y dyfodol fydd yn sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg gynaliadwy.

6.4 Mae'r WESP yn anelu i sefydlu targedau, llunio, llywio a gwella cyflenwi darpariaeth cyfrwng Gymraeg ac addysg Gymraeg, yn ei dro yn cefnogi cyflenwi nodau allweddol llesiant. Mae'r cynllun hefyd yn mynd i'r afael â'r problemau a'r bylchau syn bodoli, gan atal effaith negyddol ar gyflenwi, ymgysylltu a chydlyniaeth.

6.5 Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn bartneriaeth gydweithiol, sy'n anelu i hyrwyddo gwell llesiant fel canlyniad i gynllunio, datblygu a darpariaeth.

6.6 Mae ymgysylltu a chyfranogiad yn ffocws allweddol yn nhermau'r WESP. Mae'r cyfnod cyflenwi yn ymgysylltu gyda staff, disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i lunio darpariaeth a sicrhau fod cyflenwi'r cynllun yn rhoi ystyriaeth i lesiant randdeiliaid.

6.7 Cynhaliwyd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoleb ar y templed blaenorol pan gafodd y WESP ei lunio yn 2017, gan ddangos effaith gadarnhaol ar nodwedd warchoddedig y Gymraeg. Cynhelir Aseiad pellach yn y templed diwygiedig ddechrau mis Tachwedd a chaiff ei gyhoeddi ar y wefan.

7. Trefniadau Monitro

7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl diweddariad blynyddol ar y cynnydd ar y WESP. Fel canlyniad, mae'r tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu ac yn monitro'r WESP yn fisol, gan roi adroddiadau bob tymor i'r Fforwm Addysg Gymraeg ac adroddiadau blynyddol i Lyworaeth Cymru. Yn ychwanegol, caiff adroddiadau ar ddatblygiad a chynnydd y Fforwm Addysg Gymraeg eu cymryd drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn ffocws allweddol ym Mwrdd a Fforwm Derbyn Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

8. Dogfennau Cefndir / Dolenni Electronig

- Atodiad 1 - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2017-2020

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/policies-plans-strategies/blaenau-gwent-welsh-in-education-strategic-plan-20172020/>

- Atodiad 2 - Llythyr Cymeradwyo Llywodraeth Cymru
- Atodiad 3- Cylch Gorchwyl Fforwm Addysg Gymraeg



Appendix 3 - Final
WEF TOR 2017.docx

- Atodiad 4 - Tudalen gwefan/Adborth Cymraeg i Blant



Appendix 4 -
Digwyddiad BI Gwent

CYF: WESPU.166